

O gwmpas y tŷ

Dewiswch ystafell yn eich cartref.
Rhowch her i'ch plentyn i nodi 20 ongl
sgwâr yno.



Rhannu rhifau

Bydd angen darn o bapur ar bawb. Dewiswch bum rhif yr un o'r rhestr
isod a'u hysgrifennu ar eich papur.

5 6 8 9 12 15 20 30 40 50


- ◆ Cymerwch eich tro i rolïo dis. Os yw'r rhif sy'n cael ei rolïo yn rhannu'n union i un o'ch rhifau chi, gallwch ei groesi allan, e.e. os byddwch yn rholïo 4, mae'n rhannu i 8, croeswch yr 8 allan.
- ◆ Os byddwch yn rholïo 1, collwch dro. Os byddwch yn rholïo 6 cewch dro arall.
- ◆ Y cyntaf i groesi'r pum rhif allan sy'n ennill.

Ar ras i ddeg!

- ◆ Bydd angen dis ar gyfer pob chwaraewr.
- ◆ Dwedwch: *Ewch!* Yna pawb i rolïo'i ddis ar yr un pryd.
- ◆ Adiwch yr holl rifau sy'n dangos ar eich dis, ar yr ochrau yn ogystal â'r top.
- ◆ Mae'r person â'r cyfanswm uchaf yn sgorio 1 pwynt.
- ◆ Y cyntaf i gael 10 pwynt sy'n ennill.


Wrth fynd am dro

- ◆ Dewiswch rif car tri digid, e.e. 569.
- ◆ Gwnewch swm tynnu o hyn, e.e. 56 – 9.
- ◆ Gwnewch hynny yn eich pen. Dwedwch yr ateb.
- ◆ Os ydych yn gywir, rydych chi'n sgorio pwynt
- ◆ Y cyntaf i gyrraedd 10 pwynt sy'n ennill.



Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 4

YGG Castell-nedd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich
plentyn

Targedau – Blwyddyn 4 ₂

Erbyn diwedd Blwyddyn 4, bydd y rhan fwyaf o blant yn

...


- Gwybod tabl 2, 3, 4, 5, 6, 8 a 10 ar eu cof, e.e. gwybod ffeithiau fel 7×5 a $36 \div 4$.
- Talgrynnu rhifau fel 672 i'r 10 neu'r 100 agosaf.
- Dangos bod ffracsiwn syml fel $\frac{2}{6}$ yn gywerth â $\frac{1}{3}$.
- Cyfrifo symiau fel $26 + 58$ a $62 - 37$ yn eu pen.
- Gwneud symiau fel $234 + 479$ neu $791 - 223$ gan ddefnyddio papur a phensil a'u hysgrifennu mewn colofnau.
- Lluosi rhifau fel $38 \hat{a} 10$ neu 100, a rhannu rhifau fel 4200 $\hat{a} 10$ neu 100.
- Lluosi a rhannu rhifau hyd at 100 $\hat{a} 2, 3, 4$ neu 5, a dod o hyd i'r gweddill, e.e. $36 \times 3, 87 \div 4$.
- Newid punnoedd yn geiniogau a chentimetrau yn fetrau, ac fel arall, e.e. gweld bod £3.45 yr un peth $\hat{a} 345c$, a bod 3.5 metr yr un peth $\hat{a} 350$ centimetr.
- Dweud faint o'r gloch yw hi i'r funud agosaf a defnyddio amserlen syml.
- Dewis siapiau \hat{a} nodweddion tebyg, e.e. siapiau ag ochrau o'r un hyd, neu ag onglau sgwâr, neu siapiau cymesur.
- Defnyddio $+, -, \times, \div$ i ddatrys problemau a phenderfynu a fyddai'n well cyfrifo yn y pen neu ar bapur.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 4.

Mae'n bosib bod targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn gallu tynnu 497 o 506 drwy ysgrifennu mewn colofnau heb sylweddoli ei bod yn gyflymach cyfrif ymlaen o 497 i 506 yn eu pennau.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref



Dis a deg

Bydd angen sgwâr 1–100 ar gyfer y gêm hon (bydd bwrdd nadredd ac ysgolion yn gwneud y tro), 20 cownter neu ddarn arian, a dis.

- ◆ Cymerwch eich tro.
- ◆ Dewiswch rif dau ddigid ar y bwrdd e.e. 24.
- ◆ Rholiwch y dis. Os byddwch yn rholio 6, collwch y tro hwnnw.
- ◆ Lluoswch y rhif ar y dis $\hat{a} 10$, e.e. os byddwch yn rholio 4, mae'n rhoi 40.
- ◆ Gallwch naill ai adio neu dynnu'r rhif hwn at neu o'ch rhif dau ddigid ar y bwrdd, e.g. $24 + 40 = 64$.
- ◆ Os ydych yn gywir, rhowch ddarn arian neu gownter ar yr ateb.
- ◆ Y cyntaf i gael 10 cownter ar y bwrdd sy'n ennill.